

<b>Pwyllgor</b>	Pwyllgor Craffu Cymunedau
<b>Dyddiad</b>	16 Mai 2024
<b>Teitl</b>	Clwyf Gwywiad yr Onnen
<b>Aelod Cabinet</b>	Y Cyngorydd Berwyn Parry Jones
<b>Awdur</b>	Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianeg ac YGC
<b>Pwrpas</b>	Diweddariad ar raglen waith archwilio a thrin clwyf gwywiad yr onnen ac ar weithgareddau'r tîm yn gyffredinol

## 1. Cyflwyniad

- 1.1** Mae clwyf gwywiad yr onnen yn ffwng hynod ddinistriol sy'n effeithio'n benodol ar goed ynn. Cofnodwyd yr achosion cyntaf o'r clwyf yn y DU yn 2012 ac mae bellach yn eang ledled Cymru, gan gynnwys Gwynedd. Mae'r clwyf yn achosi ystod o symptomau, o bydredd dail i ganghennau'n syrthio heb rybudd. Yn y pen draw, mae'n cael effaith andwyol ar sefydlogrwydd strwythurol y mwyafrif o goed y mae'n eu heintio.
- 1.2** Ar wahân i'r risg iechyd a diogelwch amlwg, mae'r clwyf yn peri ystod o risgiau eraill i awdurdodau lleol, gan gynnwys rhai economaidd, amgylcheddol ac enw da. O ganlyniad, mae ein hyswirwyr, Zurich Municipal, yn ystyried y risg o goed yn syrthio, a gwywiad yr onnen yn arbennig, fel un o'u blaenoriaethau. I'r perwyl hwn, mae effaith potential y clwyf ar ein trigolion a gweithwyr wedi'i gynnwys ar gofrestr risg corfforaethol y Cyngor.

## 2. Sefydlu'r Tîm Clwyf Gwywiad yr Onnen

- 2.1** Cychwynwyd casglu data i geisio adnabod a meintoli'r broblem ar ffyrdd a thiroedd y Cyngor ym mis Mehefin 2020. Ymgwymerwyd â'r gwaith archwilio gan gontractwyr arbenigol a phenodwyd Swyddog Cefnogol Clwyf Gwywiad yr Onnen i'w gydgorio. Archwiliwyd bron i 15,000 o goed y flwyddyn honno ac, o'r rhain, nodwyd bod dros 3,000 ohonynt, coed ynn a rhywogaethau eraill, yn y categori risg uchel yr oedd angen gweithredu ar unwaith. Roedd thua 30 ohonynt (ar diroedd ysgolion yn bennaf) yn angen sylw ar unwaith er mwyn diogelu'r cyhoedd.
- 2.2** O ganlyniad i'r data hwn, bu i'r Cyngor gydnabod bod y sefyllfa'n peri risg corfforaethol i'r awdurdod. Felly, ym mis Medi 2021, cymeradwyodd yr awdurdod gais yr Adran i ariannu dwy swydd newydd, sef Uwch Swyddog a Choedwigwr, yn ychwanegol at y Swyddog Cefnogi presennol, er mwyn creu tîm arbenigol i geisio rheoli'r clwyf ar ei ffyrdd a'i thiroedd. Ar yr un pryd, dyrannwyd cyllideb barhaol o £100k i'r tîm i wneud gwaith gweithredol megis archwilio a thocio a thorri coed heintiedig.
- 2.3** Ers ei ffurfio, mae'r tîm wedi parhau gyda'r rhaglen archwilio coed, wedi cynnal asesiadau llawn o gyflwr coed ac wedi llunio rhaglenni gwaith i ymdrin â choed sy'n peri risg diogelwch i'r cyhoedd. Maent hefyd yn cyfathrebu â thirfeddianwyr preifat a rhoi rhybuddion cyfreithiol arnynt fel bo'r angen os yw eu coed yn peri risg diogelwch i ddefnyddwyr ein ffyrdd a thiroedd.

- 2.4** Yn fwy diweddar, mae'r tîm wedi paratoi pecynnau gwybodaeth ac adnoddau ar wefan y Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r clwyf.
- 2.5** Yn ogystal â'u gwaith gyda'r clwyf, mae'r tîm yn cynnig cyngor i swyddogion eraill y Cyngor ar faterion coed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu eu bod yn cymryd drosodd cyfrifoldebau archwilio a thrin coed rheolaidd pob adran, nac ychwaith gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf mewn perthynas â derbyn cwynion am goed diffygiol yn gyffredinol. Mae'r dyletswyddau yma'n parhau gyda swyddogion perthnasol yn yr adrannau oni bai eu bod yn berthnasol i goed ynn.

### **3. Diweddariad ar archwilio a thrin coed ynn**

- 3.1** Mae'r tîm yn rhoi blaenoriaeth i archwilio coed sydd ar, neu'n agos at, ein prif ffyrdd, ysgolion, mynwentydd a mannau agored cyhoeddus eraill (mae hyn ar ôl gwerthuso'r risgiau o ran eu tebygolrwydd cymharol a'u heffaith). O ganlyniad, mae'r mwyafrif o'n ffyrdd di-ddosbarth, tiroedd gyda llai o ddefnydd ac ati, eto i dderbyn archwiliadau cynlluniedig.
- 3.2** Yn ogystal â chynnal archwiliadau ar goed o'r newydd, mae'r tîm hefyd yn ailymweld â safleoedd sydd eisoes wedi'u harolygu er mwyn canfod a yw cyflwr y coed a ddynodwyd yn rhai risg uchel bryd hynny wedi newid a hefyd a yw cyflwr coed cyfagos a ddynodwyd yn flaenorol yn rhai risg canolig wedi dirywio.
- 3.3** Mae cyfanswm o dros 23,000 o goed wedi'u harchwilio ers 2020 gyda bron i 8,000 ohonynt wedi eu hadnabod fel rhai yn y categori risg uchel.
- 3.4** Unwaith mae coed risg uchel wedi'u hadnabod, mae'r tîm yn dilyn dull asesu risg coed cydnabyddedig (Quantified Tree Risk Assessment - QTRA) er mwyn eu cynnwys a'u blaenoriaethu ar eu rhaglen tocio a thorri. O'r 8,000 o goed risg uchel sydd wedi'u hadnabod hyd yma, ond 710 ohonynt sydd wedi'u torri neu eu tocio hyd yn hyn.
- 3.5** Mae'r gyllideb weithredol bresennol, sef £100k, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer, nid yn unig torri a thocio coed, ond hefyd ar gyfer costau eraill e.e. dibrisiant cerbydau, trwyddedau, offer ac ati. Mae hyn yn golygu mai ond thua £70k sydd ar ôl ar gyfer archwilio a gwaith trin coed yn flynyddol.
- 3.6** Mae'r ceisiadau am gyngor gan swyddogion eraill y Cyngor ynghylch coed ynn a rhywogaethau eraill yn cynyddu. Mae aelodau'r tîm yn barod i gynghori unrhyw swyddog ar faterion coed. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwyfwy anodd gwneud hyn tra hefyd cyflawni eu rôl o ddydd i ddydd. O ganlyniad, bydd yn rhaid blaenoriaethu unrhyw ofyn yn erbyn gwaith dydd i ddydd y gwasanaeth.

#### 4. Ystyriaethau eraill

- 4.1 Coed preifat:** Dywedwyd yn 2.3 uchod fod y tîm yn cyfathrebu â thirfeddianwyr preifat a rhoi rhybuddion cyfreithiol arnynt fel bo'r angen. Tirfeddianwyr sy'n gyfrifol am gynnal coed sy'n tyfu ar eu tiroedd ac mae ganddynt ddyletswydd gofal i sicrhau nad ydynt yn fygythiad i bobl nac eiddo.
- 4.1.1 Mae gan y Cyngor bwerau o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980 a'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i fynd ar ôl tirfeddianwyr i wneud coed peryglus yn ddiogel a hefyd gwneud gwaith 'in-default' pe baent yn gwrthod gwneud hynny. Y tîm sy'n rheoli hyn mewn perthynas â choed ynn.
- 4.1.2 Mae dros 700 o'r 8,000 o goed sydd wedi'u hadnabod fel rhai risg uchel yn deillio o diroedd preifat. Fodd bynnag, nid yw'r tîm wedi cael y cyfle eto i gysylltu â mwyafrif y tirfeddianwyr a dilyn y prosesau angenrheidiol i sicrhau bod eu coed yn cael eu gwneud yn ddiogel.
- 4.2 Technoleg:** Mae'r tîm eisoes yn defnyddio'r meddalwedd rheoli asedau arbenigol 'Ezytreev' ar gyfer cydlynu a rheoli'r data a gasglwyd ar goed. Mae'r meddalwedd yma wedi helpu'n sylweddol gyda threfnu gwaith torri ac ati. Fodd bynnag, gall fod yn anodd blaenoriaethu pa goed ddylai dderbyn archwiliadau manwl ac ym mha leoliadau oni bai bod y tîm yn gyntaf wedi cynnal arolygon rhagarweiniol ar y ffyrdd a'r tiroedd. Gall hyn gymryd llawer o amser ac adnoddau i'w weithredu.
- 4.2.1 I'r perwyl hwn, mae'r tîm yn gweithio gyda swyddogion tîrfesur Ymgynghoriaeth Gwynedd i geisio darganfod dulliau mwy effeithlon o gyflawni hyn. Un dull y maent yn arbrofi ag ef yw defnyddio dronau i hedfan dros ardaloedd coediog er mwyn gallu adnabod 'hot-spots' yn gyflym. Pe bai'r arbrawf yn llwyddiannus, gallai chwyldroi sut mae'r tîm yn blaenoriaethu ble i gynnal archwiliadau manwl fel bod y coed sy'n peri'r risg mwyaf i'r cyhoedd yn cael eu harchwilio'n gyntaf.
- 4.3 Gwaredu coed a dorwyd:** Mae hwn wedi bod yn destun trafod cyn ffurfio'r tîm. Yn bresennol, rydym yn dibynnu ar ein contractwyr i ymdrin â choed sydd wedi cael eu torri. Yn dibynnu ar eu maint, mae'r contractwyr naill ai'n chipio'r coed ar y safle neu'n eu cludo oddi ar y safle i'w gwerthu ymlaen fel coed tân. Yn amlwg, mae'r rhain yn asedau'r Cyngor sydd â gwerth ariannol. Fodd bynnag, er bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r Cyngor ei hun storio'r coed a'u gwerthu, mae'r logisteg o wneud hynny, a'r cyfyngiadau ariannol, wedi rhwystro'r prosiect rhag symud ymlaen.
- 4.3.1 Er hynny, mae'r tîm yn bresennol yn ceisio sicrhau arian i gomisiynu astudiaeth dichonoldeb i adnabod opsiynau ar gyfer cael gwared a choed yn ogystal ag ailblannu coed i wneud iawn am y carbon a gollir o ganlyniad. Bydd hyn yn flaenoriaeth dros y misoedd nesaf gan anelu i gael trefn clir erbyn yr Hydref.

**4.4 *Polisi Rheoli Coed:*** Mae gan y Cyngor eisoes bolisi ar sut i reoli coed ar ei ffyrdd a thiroedd. Fodd bynnag, mae wedi dyddio ac nid yw rhai o'r Gwasanaethau yn glynu wrtho'n ddigonol i amddiffyn y Cyngor yn llawn rhag hawliadau trydydd parti, neu'n waeth na hynny, erlyniad pe bai damwain. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae Zurich Municipal yn ystyried y risg o goed yn syrthio fel un o'u blaenoriaethau.

4.4.1 Ffurfiwyd gweithgor i adolygu'r polisi presennol fel ei fod yn cyd-fynd yn agosach â'r canllawiau cenedlaethol. Mae gan yr Adran hon rôl arweiniol ar y gweithgor sy'n cynnwys mewnbwn gan y tîm clwyf gwywiad yr onnen. Mae'r gweithgor yn gweithio'n agos a Zurich Municipal ar gynnwys y polisi diwygiedig. Fodd bynnag, ddylid nodi os yw'r polisi yn cael ei fabwysiadu yn ei newydd wedd, yna rhagwelir y bydd goblygiadau adnoddau sylweddol i nifer o Wasanaethau'r Cyngor.

**4.5 *Siop Un Stop:*** Mae eisoes wedi cael ei grybwyll fod y tîm yn ymdrin â sawl ymholiad gan Wasanaethau eraill am gyflwr coed ac ati. Mewn gwirionedd, heblaw am y tîm a chwpl o arbenigwyr yn Adran yr Amgylchedd, nid oes unigolion eraill o fewn y Cyngor y gall swyddogion droi atynt mewn perthynas â materion coed.

4.5.1 Gan y rhagwelir y bydd y polisi rheoli coed newydd yn rhoi llawer mwy o alw ar reolwyr safleoedd mewn perthynas ag archwilio coed, gwaith torri ac yn y blaen, mae'n bosib y byddai'n fwy effeithiol adeiladu tîm rheoli coed arbenigol corfforaethol a chael iddynt fod yn gyfrifol am bob agwedd o reoli coed y Cyngor. Yn amlwg, byddai angen ei gynllunio'n ofalus a chael cefnogaeth ariannol i wireddu'r cynnig. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth sy'n werth ei ystyried a gallai o bosibl arwain at arbedion ariannol yn y tymor hir.

## **5. Casgliad**

**5.1** Er bod tystiolaeth bod clefyd clwyf yn onnen yn peri llai o risg wrth i amser fynd rhagddo, nid oes unrhyw dystiolaeth empirig i gefnogi hyn. Mae rhai awdurdodau'n adrodd eu bod yn dod ar draws llai o achosion o'r clefyd erbyn hyn ac o ganlyniad yn torri neu'n tocio llai o goed. Fodd bynnag, yn aml nid yw eu sefyllfa'n cael ei rhoi mewn cyd-destun h.y. maint yr awdurdod, os yn wledig neu'n drefol, pryd y dechreuon nhw arolygu a thrin coed heintedig neu os ydynt wedi bod yn ddigon ffodus i gael adnoddau digonol o'r cychwyn i ddelio â'r clefyd yn llawn.

**5.2** Mewn perthynas â ffyrdd a thiroedd Cyngor Gwynedd, nid oes tystiolaeth bod y clwyf ar drai. Hyd yn oed pe bai tystiolaeth ei fod, mae llawer o goed ar ffyrdd a thiroedd y Cyngor yn parhau heb eu harchwilio. Yn ogystal, mae nifer sylweddol o goed risg uchel yn parhau ar raglen waith y tîm (heb ystyried unrhyw goed clwyfedig y gellir eu nodi mewn archwiliadau yn y dyfodol). O ganlyniad, rhagwelir y bydd y clefyd yn parhau i fod yn risg uchel i'r Cyngor ac y bydd y tîm yn ymdrin â'i effeithiau am flynyddoedd i ddod.